Y cerddor amryddawn

(mwynhau a gwerthfawrogi cerddoriaeth)

"Mam, rydw i wedi cael digon ar Ben. Mae'n mynnu cael ei ffordd ei hun ymhob dim. Pan ydw i eisiau chwarae piano mae Ben eisiau chwarae piano. Pan ydw i eisiau ymarfer ar gyfer y ras yn yr ysgol, mae Ben eisiau rhedeg ras," cwynai ei frawd hŷn Robert bob dydd o'r bron. Mae'n amlwg un diwrnod fod pethau wedi mynd o ddrwg i waeth. Yn y berllan gwelodd y rhieni y ddau yn paffio o ddifri. Daeth Ben i mewn i'r tŷ ac meddai wrth ei rieni, "Dyna fo, wedi cael un dyrnaid yn ei wyneb. Wnaiff o byth feiddio achwyn arna i eto. Byth." Brasgamodd i'w ystafell ac yno y bu weddill y dydd.

Ganed Benjamin ar 22 Tachwedd 1913, dydd Gŵyl Santes Cecilia, nawddsant cerddoriaeth a cherddorion. Cyd-ddigwyddiad diddorol iawn! Roedd ei fagwraeth, fel y plentyn ieuengaf y teulu a'i ardal yn Lowestoft, pentref ar lan y môr, i gael dylanwad mawr ar y cerddor. Yn ôl ei gyfnither Elsie Hocking, "Mae Ben yn dalentog iawn. Does yna neb erioed wedi dysgu cerddoriaeth iddo, mae wedi'i eni â'r talentau hyn i gyd."

Fel sawl cerddor o'i flaen roedd wedi dechrau chwarae'r piano'n ifanc a hynny'n bump oed! Pan ddechreuodd yn yr ysgol dechreuodd chwarae'r fiola ac erbyn iddo gyrraedd ei ben-blwydd yn ddeuddeg oed roedd wedi dechrau cyfansoddi ac ymhlith ei gyfansoddiadau roedd chwe phedwarawd llinynnol a 10 sonata i'r piano! Cerddoriaeth oedd ei fywyd weddill ei oes. Bu hefyd yn cyfansoddi cerddoriaeth ar gyfer ugain o ffilmiau dogfen.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd aeth i fyw i Efrog Newydd ac yntau erbyn hyn yn heddychwr rhonc a bu yno tan 1942 pan ddychwelodd i Loegr, ac ymhen tair blynedd roedd wedi cwblhau ei opera *Peter Grimes*. Yn wir rhwng 1945 a 1949 cyfansoddodd un opera bob blwyddyn!

Yn 1948 cychwynnodd ŵyl gerddorol yn ei bentref genedigol ac erbyn hyn mae Gŵyl Aldeburgh, fel y'i gelwir, yn adnabyddus drwy'r byd gyda cherddorion amlwg iawn yn cymryd rhan yn yr ŵyl bob blwyddyn!

Yn ystod ei yrfa, derbyniodd Britten sawl anrhydedd fel un o brif gyfansoddwyr yr ugeinfed ganrif ym Mhrydain. Yn 1976, y flwyddyn y bu farw, fe'i gwnaed yn Arglwydd Britten o Snape, sef ardal wrth ymyl ei bentref genedigol. Edrychir ar sawl cyfansoddwr

o'r ugeinfed ganrif fel cyfansoddwyr 'modern'. Weithiau cyfeirir atyn nhw fel cyfansoddwyr 'avant-garde', sef cyfansoddwyr oedd yn feistri ar un math o gerddoriaeth. Ond ni ellir dweud hyn am Britten.

Er bod ei gerddoriaeth yn wahanol, eto i gyd roedd yn defnyddio syniadau traddodiadol yn ei gyfansoddiadau, sef graddfeydd a chordiau cyffredin. Ond yr oedd yn rhoi'r rhain gyda'i gilydd mewn ffordd gwbl wahanol. Cyfansoddodd sawl math o gerddoriaeth: operâu, operâu eglwysig, caneuon a darnau i'r gerddorfa. Ymhlith ei gyfansoddiadau enwog i blant mae *Young Person's Guide to the Orchestra, Let's make an Opera* a *Noye's Fludde* (Dilyw Noa).

Comisiynwyd ef i gyfansoddi ar gyfer ailadeiladu Eglwys Gadeiriol Coventry ar ôl iddi gael ei bomio yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Cyfansoddodd ei War Requiem ar gyfer y gwaith hwn ym 1961. Erys ei waith ar gof a chadw.

Bu farw yn nwylo ei ffrind gydol oes, Peter Pearce. Ei eiriau olaf oedd, "Does dim ofn marw arna i ond rwyf eisiau marw o'th flaen di. Wn i ddim beth fuaswn i'n wneud hebot ti." Claddwyd ef ddechrau Rhagfyr 1976 ym mynwent Aldeburgh.

Adnod: "Da yw canu mawl i'n Duw ni oherwydd hyfryd a gweddus yw mawl." Salm 147:1

Gweddi: Diolch i ti, Arglwydd, am y rhai hynny sydd â'r ddawn i greu cerddoriaeth. Amen.

Trafod:

- Beth yn eich barn chi oedd talent fawr Britten fel cerddor?
- Pa mor bwysig fyddech chi'n ei ddweud yw dylanwad aelwyd a bro ar berson?